# Therapi gwrthimiwnedd ar gyfer trawsblaniad aren mewn oedolion

11 Hydref 2017

Mae basiliximab (Simulect), tacrolimus sy'n cael ei ryddhau ar unwaith (Adoport, Capexion, Modigraf, Prograf, Tacni, Vivadex) a mycophenolate mofetil (fersiynau Cellcept ac nad oes enw brand arnynt) ar gael ar y GIG. Caiff y rhain eu hargymell fel triniaethau posibl ar gyfer atal aren yn cael ei wrthod mewn oedolion sydd wedi cael trawsblaniad aren, a ddechreuodd tuag adeg y trawsblaniad.

Nid oedd yn bosibl gwneud argymhellion ynglŷn â pha driniaethau i'w defnyddio os nad yw'r driniaeth a ddechreuodd tuag adeg y trawsblaniad yn addas neu os oes angen ei newid (er enghraifft, os nad yw'n gweithio neu os na all y person ei oddef) neu os yw'r person yn cael trawsblaniad arall.

Nid yw imiwnoglobwlin thymocyte gwrth-ddynol o gwningod (Thymoglobuline), tacrolimus rhyddhad estynedig (Advagraf, Envarsus), sodiwm mycophenolate (Myfortic, Ceptava), sirolimus (Rapamune), everolimus (Certican) a belatacept (Nulojix) ar gael fel arfer ar y GIG ar gyfer atal aren yn cael ei wrthod mewn oedolion. Dylai eich meddyg siarad â chi am yr opsiynau triniaeth eraill. Os ydych eisoes cymryd un o'r triniaethau hyn, dylech allu parhau i'w gymryd nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

teulu fod yn rhan o'r broses hefyd,  os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

**Cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

## *Gwybodaeth a chymorth*

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Kidney Care UK, 01420 541 424
- Ymchwil Arennau y DU, 0300 303 1100
- Ffederasiwn Arennau Cenedlaethol, 0845 601 0209

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1703-7

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights